Teithiau Cerdded Gwledig o Amgylch Wrecsam

Llwybr 1 – Clawdd Offa a Phentre-Bychan (3 milltir)

Croesfoel – Cadwgan – Clawdd Offa – Talwrn – Pentrebychan – Packsaddle

Mae llawer i ddenu cerddwyr ar y llwybr hwn trwy gydol y flwyddyn; mae'n llawn hanes lleol a bywyd gwyllt. Dylech adael 1 ½ - 2 awr ar gyfer y daith a chofiwch y gallai fod mwd yma ac acw.

Parcio: Mae digon o le i un neu ddau o geir ar y B5098 ger ei chyffordd â'r B5605 (Ffordd Rhiwabon) ger Fferm Croesfoel (cyf. Grid SJ 308483 ac mae cilfan ymhellach i fyny'r ffordd. Peidiwch â pharcio ar yr ymylon. Fel arall gallech barcio ar y B5428 (Lôn yr Efail) ym Mhentref Bychan (cyfeirnod grid SJ 301477) a dechrau'r daith gerdded drwy edrych ar y colomendy. Dilynwch gyfarwyddiadau'r teithiau cerdded o'r pwynt (*) isod.

Trafnidiaeth gyhoeddus: Mae llawer o wasanaethau bysiau yn mynd heibio Croesfoel yn aml.

Cyfeiriadau'r Teithiau Cerdded

Cyn dechrau ar y daith gerdded edrychwch ar **Croesfoel (1)** a'r plac ar y wal sy'n gysylltiedig â theulu'r Davies. Ar draws y ffordd fawr y mae mynedfa **Hafod-y-bŵch (2),** sef tŷ o'r bymthegfed ganrif sydd wedi'i adnewyddu'n brydferth a gellir ei weld ar ei orau o'r ffordd osgoi.

Ewch ar hyd y llwybr troed sydd wedi'i arwyddo sy'n rhedeg ar hyd ochr cae ger gwrych y ddraenen wen. Cyn cyrraedd y twmwlws neu'r domen gladdu (y gromen amlwg yn y cae) ewch dros y gamfa yn y gwrych ar yr ochr dde ac ewch i gyfeiriad croeslinol, sydd, i raddau, yn rhedeg yn gyfochrog â'r llinellau trydan. Ar ôl cyrraedd yr ochr arall, croeswch gamfa ond, cyn cyrraedd y ffordd, chwiliwch am lwybr ar y chwith sy'n arwain at gamfa arall. Yn cuddio ymysg y coed celyn, yr helyg a'r coed sycamor y mae safle **Llyn Tro (3)**, sef tŷ amffosog.

Dilynwch ôl eich traed yn ôl ac ewch ymlaen at y ffordd. Trowch i'r chwith yn groeslinol ar draws y ffordd at gamfa sy'n rhoi arwain at gae bychan. Ewch syth ymlaen gan ddilyn y nant (gan fynd heibio coed cyll, rhosys gwyllt a phidyn y gog) at ffordd arall. Ewch dros y gamfa sydd gyferbyn ac ewch ar draws cornel isaf y cae at gamfa arall.

Dilynwch ymyl y cae hwn nes i chi gyrraedd arglawdd rheilffordd segur. Croeswch hwn ac ewch ymlaen i'r un cyfeiriad at lôn. Trowch i'r chwith ac ewch heibio **Fferm Cadwgan (4).** Erbyn hyn mae hwn yn dŷ fferm ar ffurf 'ransh' ond mae'r adeiladau allanol - rhai ohonynt wedi'u hadeiladu o gerrig, eraill o frics - yn hen iawn. Mae sycamorwydden fawr yn sefyll uwchben y nant a cheir **twmwlws (5)** mawr y tu ôl i'r fferm, ger ochr y ffordd.

Yn syth ar ôl y twmwlws trowch i'r chwith dros y gamfa ac ewch ar **Glawdd Offa (6).** Mae digonedd o flodau ar hyd y fan hon - yn dibynnu ar yr amser o'r flwyddyn, gallwch weld briallu, clychau'r gog, bysedd y cŵn, llyriad, cloch yr eos, y bengaled a llysiau'r gingroen. Ar hyd y clawdd, mae hen fonyn caled diddorol, hefyd mae coeden wedi tyfu dros ffens fetel sydd wedi ymgau yn y bonyn. Ewch heibio hen ategwaith pont y rheilffordd a dilynwch ymyl y cae. Trowch i'r dde wrth y ffordd.

Ychydig cyn y felin ddŵr ŷd sydd wedi'i thrawsnewid, trowch i lawr ar hyd y lôn sydd â chlwyd. Ymhen ychydig fetrau ewch drwy'r giât mochyn ar y chwith ac ewch tuag at giât mochyn arall yn y gornel bellaf. Ar y dde, fe welwch **Fferm Esclusham (7),** adeilad rhestredig Gradd II o'r ail ganrif ar bymtheg sydd â fframwaith a wnaethpwyd o bren llong. Hefyd ceir hen adeiladau allanol cerrig a briciau.

Croeswch y bompren a cherddwch at giât mochyn arall. Trowch i'r chwith i fynd ar y ffordd. Yn y gyffordd nesaf, trowch i'r chwith ac ar ôl 30 metr ewch drwy'r giât mochyn ar y chwith. **(*Os bu i chi ddechrau'r daith o Lôn yr Efail, dilynwch gyfarwyddiadau'r teithiau cerdded o'r fan hon.)** Mae lle hyfryd i aros i gael gorffwys neu bicnic yma. Ewch ar draws y weirglodd at y colomendy.

Roedd hwn yn rhan o **Ystâd Pentrebychan (8).** Ailadeiladwyd y colomendy yn 1721 ac mae posibilrwydd bod rhai o'r coed derw yn dyddio'n ôl i'r un cyfnod. Mae'r cae'n llawn o flodau gwyn

wmbeliffer a chloron bwytadwy, cnau daear yn ogystal â blodau ymenyn ymgripiol a blodau ymenyn y weirglodd – mae'r ail yn dalach a chanddo ddail manach.

Dilynwch ôl eich traed yn ôl at y ffordd ac ewch trwy'r giât mochyn sydd gyferbyn. Ewch yn groeslinol ar draws y cae, gan anelu at y man rhwng y swyddfeydd ar y dde (a guddir yn rhannol gan y coed) a'r gwaith dŵr a thomen wastraff gwaith glo'r Bers ar y chwith. Dylech gyrraedd giât mochyn ac, ychydig o fetrau yn nes ymlaen, giât yn arwain at y ffordd. Trowch i'r chwith gan fynd heibio safle'r Cwmni Dŵr, yn ôl i'r man cychwyn.

Mannau o ddiddordeb

(1) Mae'r enw **CROESFOEL** neu Groes Vael yn deillio o groes a arferai sefyll gerllaw. Mae'r unig gyfeiriad at y groes yn dyddio o 1545. Tŷ gwreiddiol Croesfoel oedd yr adeilad pwysicaf yn yr ardal, ac roedd gwreiddiau teulu'r Jones, o Blas Cadwgan a theulu'r Roberts o Hafod-y-bŵch yn tarddu yma. Gwnaethpwyd giatiau eglwysi Wrecsam a Chroesoswallt, a chastell y Waun yng ngefail Croesfoel, a oedd gerllaw. Y gofaint giatiau oedd Robert a John Davies, a'u teulu nhw oedd yn berchen ar ystâd Croesfoel yng nghanol y ddeunawfed ganrif. Adeiladwyd y tŷ presennol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

(2) Mae **HAFOD-Y-BŴCH** wedi'i ailadeiladu a'i newid yn helaeth ond mae cefn y tŷ yn wreiddiol. Yn 1986 enillodd y perchennog wobr Tywysog Cymru am ei waith o adfer y tŷ. Ar y wal ogleddol ar yr adain orllewinol fodern mae arfbais sy'n dyddio i 1590.

(3) Roedd **FFÔS LLYN TRO** rhwng 4-7 metr o led a 2 metr o ddyfnder ac roedd yn amddiffynfa i ffermdy bychan yr oedd yn ei amgylchynu. Bu dyn o'r enw Mr Robert Roberts yn preswylio yma yn 1688. Dwy lofft oedd yn y tŷ ac fe'i gadawyd yn wag yn ystod y 1930au. Roedd nant fach yn llifo i'r ffos, sy'n llifo i nant Glanyrafon yn y pendraw. Dim ond ambell i garreg a ffos hanner llawn sydd ar ôl.

(4) PLAS CADWGAN oedd yr ystâd fwyaf ym maenor Esclusham. Mae ganddo orffennol cyffrous iawn, a ddechreuodd pan oedd y tir yn berchen i dylwyth Cymreig mawr a oedd yn honni eu bod yn

ddisgynyddion i Gynwig ap Rhiwallon. Roedd y Neuadd Fawr, a adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn mesur oddeutu 13m x 11m. Yn ystod y Rhyfel Cartref yn 1642 roedd yn amddiffynfa i frenhinwyr ac yn ddiweddarach bu'r stablau'n wersyllty i Bengryniaid buddugoliaethus Oliver Cromwell.

Preswylydd enwocaf Plas Cadwgan oedd Edward Jones, Pabydd Rhufeinig Cymreig, a grogwyd a chafodd ei lusgo a'i chwarteru am fradwriaeth ar 21 Medi 1586. Helpiodd Jones ei gyfaill, Thomas Salisbury o Lewenni, i ddianc wedi iddo gymryd rhan yng nghynllun Babington i ryddhau Mari Brenhines y Sgotiaid. Cymerwyd Plas Cadwgan gan y Goron ar ôl i Edward Jones ei gael yn euog.

Roedd yr eiddo'n berchen i deulu'r Myddletons o gastell Y Waun o 1620 tan 1855 ac yn 1670 cafodd ei drethu am 16 aelwyd. Yn 1855 daeth yn rhan o Ystâd Plas Power. Yn anffodus, cafodd y tŷ ei ddymchwel yn 1967 and arbedwyd fframwaith derw'r Neuadd Fawr ganoloesol ac aethpwyd ag ef i Amgueddfa Adeiladau Avoncroft yn Bromsgrove, Worcestershire. Ar ôl iddo gyrraedd yr amgueddfa gwelwyd ei fod mewn cyflwr perffaith ac eithrio rhan fach oedd wedi pydru.

(5) Tomen gladdu o Oes yr Efydd ar Glawdd Offa yw **TWMWLWS CADWGAN.** Yn 1797 credir bod pedair arfwisg gyfan a sgerbwd ceffyl mawr wedi'u darganfod yn y twmpath. Ceir stori arall bod 'llond cart o arfwisgoedd' wedi'u darganfod yn 1804 a'u bod wedi mynd i Gastell Y Waun. Er nad oes modd olrhain yr arfwisgoedd, mae pant ar ochr ogleddol y garnedd sy'n dynodi bod cloddio wedi digwydd yno.

(6) Adeiladwyd **CLAWDD OFFA** gan Frenin Offa o Fersia (757-796 AD). Roedd yn dynodi ffin rhwng Cymru a Lloegr ac roedd yn ymestyn am 130km (80 milltir). Roedd yn glawdd 5-7metr o uchder ac roedd ffos 2 metr o ddyfnder ar yr ochr orllewinol ac un llai dwfn ar yr ochr ddwyreiniol.

(7) Roedd **FFERM ESCLUSHAM** yn gartref i'r teulu Trevor am sawl cenhedlaeth. Cafodd ei ailadeiladu gan Robert Trevor yn 1677. Yn 1757 roedd cymaint o forgais ar ystâd Richard Trevor nes bu rhaid iddo werthu Neuadd Esclusham, tenementau ym Myngalo Esclusham ac oddeutu 110 acer o dir i Mr John Hughes o Gilnant, plwyf Llangollen. Ar ôl hynny, aeth i fyw yng Nghae Glas

nes iddo farw yn 1790. Yn 1760 rhoddodd John Hughes y mab forgais ar Neuadd Esclusham i Mr Peter Ellames, fferyllydd o Gaer, a fu farw ym Mai 1769. Yn y pen draw, cafodd y tŷ ei etifeddu gan ei fab Pattison Ellames, o Flookersbrook, Caer. Ef oedd siryf y ddinas yn 1768 a'r Maer yn 1781.

Yn 1864 bu achos mewn Siawnsri i gystadlu am yr hawl i gael eiddo Mr Ellames, ac o ganlyniad dyfarnwyd Neuadd Esclusham i Thomas Ellames Withington o Neuadd Culcheth a Warrington. Yn 1884 gwerthodd Mr Withington oddeutu 16.5 acer (6.5 ha) o'r ystâd i Edward Evans o Bronwylfa a gwerthwyd y gweddill, gan gynnwys y tŷ, i Henry Meredith o Bentrebychan.

Yn ddiweddar, adnewyddwyd y llawr a daethpwyd o hyd i weddillion gwydr crai wedi torri gan ddynodi'r posibilrwydd bod gweithfeydd gwydr wedi bod ar y safle ar un adeg.

Ceir ysgubor gerrig ddeniadol sy'n dyddio'n ôl i hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif. Mae gan y rhan canol ddrws mawr sy'n rhoi mynediad i ddadlwytho gwair neu wellt oddi ar gart a cheffyl yn rhwydd.

Mewn ysgubor frics o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ceir nodwedd hyfryd sydd wedi parhau yno sef enwau'r gwartheg yn hongian uwchben y corau godro gwreiddiol.

(8) Ar un adeg, **PENTREBYCHAN** oedd prif ystâd yr ardal. Cafodd Hugh Meredith afael arno yn yr 1620au ac yn y cyfnod hwnnw, roedd y neuadd yn fach. Yn y 1820au daeth adeilad mawr yn lle hwn. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd yn gartref i ffoaduriaid ac yn 1948 fe'i prynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych. Yn drist iawn, cafodd ei ddymchwel yn 1963. Erbyn hyn, amlosgfa sydd ar y safle.